Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan iawn i Glyn Parry (Groes) a Tudur Jones (Cefn Meiriadog), y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod y pythefnos diwethaf hwn, a hefyd Amy Evans (Llanfair) sydd wedi bod yn yr ysbyty yn dilyn anffawd. Hyderwn y byddwch ill tri, fel eraill o'n plith sydd wedi cael gwahanol driniaethau yn ddiweddar, yn cryfhau ychydig bach mwy bob dydd. Parhau i gael gofal yn yr Inffirmari y mae Eurgain Pierce ac rwy'n siŵr ein bod ni'n ei chodi hithau a'r teulu yn gyson yn ein gweddïau. Cyflwynwn bawb o'r ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau i ofal Duw a gweddïwn y byddwch yn profi cariad Duw yn eich amgylchynu.

Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Cynhelir y Dathliad eleni yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, a hynny ar **ddydd Iau, Mai 2il** am 14:00 a 17:00. Y siaradwyr gwadd fydd Y Parch. Nerys Griffiths, Caernarfon (y prynhawn), a'r Parch. Ddr Alun Morton Thomas, Llanfairpwll (yr hwyr). Ceir hefyd gyflwyniad yn y pnawn gan Lois Adams (Gweithiwr Cenhadol) ynglŷn ag arddangosfa o gelf gwreiddiol ar y testun 'Merched y Beibl' fydd i'w weld yn ystod y Dathliad. Yna, yng nghyfarfod yr hwyr, bydd Catrin Hampton, Gweithiwr Cenhadol gyda Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn sôn am ei gwaith yn yr ardal. Bydd paned a chacen ar gael yn y Festri rhwng y ddau gyfarfod.

Eleni eto, bydd Trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau ariannol er mwyn cefnogi gwaith cenhadol lleol a thramor. Os byddwch am gyfrannu, rhowch yr arian i Drysorydd eich eglwys **erbyn Ebrill 8fed**, os gwelwch yn dda. (***Nodyn i'r Trysoryddion:*** *Er mwyn galluogi'r Ofalaeth i drosglwyddo'r arian mewn da bryd, wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn* ***Ebrill 10fed*** *gyfanswm casgliad eich eglwys, os gwelwch yn dda? Gallwch wedyn dalu'r arian i gyfrif yr Ofalaeth naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny.)*

Cinio Cynnil

Os byddwch yn siopa yn Ninbych ar ddydd Gwener yn ystod cyfnod y Grawys a'ch bod awydd cinio cynnil, ewch i Eglwys y Santes Fair, Dinbych rhwng 12:00 ac 13:00 o'r gloch. Yno, cewch gawl cartref a rholyn bara, darn o ffrwyth, a dŵr am bris o £3.50. Bydd yr elw yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Lleuwen Steffan – Emynau Coll y Werin

Cofiwch bod taith y gantores Lleuwen Steffan o amgylch capeli Cymru wedi cychwyn. Fe fydd hi'n perfformio yng Nghapel y Waen, Llanelwy am 1:00 y pnawn ac yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr **ar ddydd Mawrth, Ebrill 30ain**.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10 Mawrth 2024

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Eironi Sul y Mamau

Ychydig o sylw a roesom yn y capeli i lawer o'r dyddiau gŵyl a ddethlir gan draddodiadau Cristnogol eraill, ac aeth eu hystyr a'u harwyddocâd o'r herwydd yn angof i ni. Un o'r dyddiau hynny yw Sul y Mamau, a ddethlir heddiw. Tybed faint ohonoch sy'n sylweddoli nad oedd a wnelo'r Sul hwn yn wreiddiol ddim oll â mamau?

Byddai Eglwyswyr da'n medru dweud wrthych nad mamau na neiniau ond yn hytrach eglwysi yw'r 'mamau' yn 'Sul y Mamau'. Yn wreiddiol, ac yn draddodiadol, cyfle oedd y Sul hwn i bobl fynd adref i'w 'mam eglwys'. Byddai plant oedd yn gweithio oddi cartref, yn cynnwys merched a fyddai'n gweini mewn trefi dieithr, yn cael diwrnod o'r gwaith i fynd adref i addoli yn yr eglwysi y cawsant eu magu ynddynt. Yn sgil hynny wrth gwrs, deuai cyfle i weld y teulu; ond ymweld â'r 'fam eglwys' oedd pwrpas y diwrnod.

Cefais fy sicrhau gan ffrind i mi yn Llanberis bod yr Eglwys yng Nghymru'n dal i roi sylw i ystyr wreiddiol y dydd. Ond eironi'r peth yw ein bod ers tro byd wedi arfer â gweld pobl yn cadw draw o'r oedfa neu'n ymddiheuro na fydd eu plant yn yr Ysgol Sul "am ei bod yn Sul y Mamau, a bod y teulu wedi trefnu i fynd am ginio". Wrth reswm, fedr gweinidog na'r traddodiad anghydffurfiol a anwybyddodd y dyddiau gŵyl ddim synnu na chwyno o weld peth felly!

Beth bynnag a wnawn o Sul y Mamau, mae tarddiad yr ŵyl yn gyfle i ni ddiolch am ein 'mam eglwys' ein hunain. I rai ohonoch, yr eglwys yr ydych yn aelod ynddi yw honno. I eraill, eglwys arall, yn y fro hon neu yn yr ardal y'ch magwyd ynddi. Ac i eraill eto, nid eglwys eich plentyndod ond yr eglwys y daethoch i ffydd yn Iesu Grist trwyddi. Mae amryw o'r eglwysi hynny, gwaetha'r modd, wedi eu datgorffori erbyn hyn, a'r capeli wedi hen gau. Ond ble bynnag oeddent, a beth bynnag eu hanes heddiw, diolchwn i Dduw amdanynt gan drysori o'r newydd gymdeithas a thystiolaeth a gweinidogaeth yr eglwysi a'r bobl a gyflwynodd i ni'r newyddion da am Grist a'i groes a'i fedd gwag. Ac o ddiolch amdanynt, gwerthfawrogi hefyd ddarpariaeth a chymdeithas a gweinidogaeth ein heglwysi heddiw, gan ymroi hyd eithaf ein gallu i'w gwaith a'u haddoliad a'u cenhadaeth yn y gobaith y gwelwn, trwy ras Duw, lawer eto'n dod i'w hanwylo fel eu 'mam eglwysi' hwythau.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mawrth 10fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan, ac Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10:15.
- **Oedfa i'r Daith yng Nghefn Berain** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dafydd Murphy. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 9:30.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Llun, Mawrth 11eg

- **Cyfarfod Plant Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.

Dydd Mawrth, Mawrth 12fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Cefn Meiriadog am 7:30 yr hwyr.

Dydd Iau, Mawrth 14eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Groes am 6:30 yr hwyr.

Dydd Gwener, Mawrth 15fed

- **Noson Gŵyl Ddewi Cymdeithas Capel Henllan** yn Neuadd yr Eglwys am 7:30 yr hwyr. Cawl, pwdin a pherfformiad yng nghwmni Clwb Ffermwyr Ifanc Nantglyn. Oedolion: £10, Plant £5. Enwau i Haf (07752 335584) neu Rhian (07796 757668) erbyn dydd Mawrth (12fed), os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Mawrth 17eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Gymun yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Corey Hampton.
- **Oedfa'r Fro yn Saron** am 6:00 yr hwyr o dan arweiniad Alun Jones, gyda'r Parch. John Pritchard yn pregethu.

Dydd Llun, Mawrth 18fed

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** Gwasanaeth y Pasg o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. (Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.) Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565).

Dydd Mawrth, Mawrth 19eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Mercher, Mawrth 20fed

- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7:00 pryd y bydd Y Parchedig Carwyn Siddall, Llanuwchllyn (Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau yr Undeb) yn annerch.

Dydd Iau, Mawrth 21ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Sul, Mawrth 24ain

- **Oedfa i'r Daith yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dewi Williams.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa i'r Daith yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.

Gŵyl Llanw 2024

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon eleni eto yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng Ebrill 1af–5ed. Y prif siaradwr bore Mawrth, bore Mercher a bore Iau fydd Arfon Jones, ac o nos Lun ymlaen, bydd Martyn Geraint, Heulwen Davies, Steffan Jones, Steff Morris a Lois Franks ac eraill yn arwain yr oedfaon/cyfarfodydd gyda'r nos. Bydd darpariaeth ar gyfer y plant a'r ieuenctid hefyd. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd. I gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau, ewch i wefan Llanw: https://llanw.org/llanw-24.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (20fed), os gwelwch yn dda.